# Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

## Trosolwg y cymhwyster

Mae'r cymhwyster wedi selio ar ymarfer ac yn asesu gwybodaeth a chymhwysedd i ymarfer mewn cyflogaeth y dysgwyr. Mae'n darparu'r cyfle i gyfoethogi gwybodaeth a sgiliau gan ddefnyddio cynnwys gorfodol ac unedau opsiynol. Bydd hwn o ddiddordeb i weithio mewn gwasanaethau cymorth cartref, gofal preswyl, darpariaeth anabledd dysgu yn cynnwys gwasanaethau gofal iechyd yn y gymuned. Yn bennaf, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn gallu:

- Deall, ac ymroi yn ymarferol, egwyddorion a gwerthoedd sydd wrth wraidd iechyd a gofal cymdeithasol
- Deall, ac ymroi yn ymarferol, dulliau person canolog
- Hybu a chefnogi ymarfer effeithiol o fewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Yn ymwybodol o bolisiau allweddol o fewn y sector a deall sut mae'r rhain yn effeithio ar wasanaeth sy'n datblygu ac yn trosglwyddo
- Gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, eu teuluoedd, gofalwyr ac amrywiaeth o bobl broffesiynol
- Dangos amrywiaeth o dechnegau datrys problemau
- Myfyrio ar ymarfer i wella trwy'r amser
- Defnyddio llythrenedd, rhifedd a sgiliau cymhwysedd digidol fel sy'n briodol o fewn ei rôl.

## Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Mae'r cymhwyster ar gyfer unigolion sydd wedi eu cyflogi mewn lleoliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd ar gyfer oedolion a gall cael ei ddarparu trwy ddysgu seiliedig ar waith neu goleg addysg bellach. Mae disgwyl bydd gan y dysgwyr ymreolaeth i ryw raddau yn ei rôl ac yn cefnogi eraill i ddarparu gofal o'r safon uchaf.

Mae'n addas ar gyfer:

- Dysgwyr sydd wedi cwblhau'r cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd.
- Dysgwyr sydd wedi cwblhau'r cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Dysgwyr sydd wedi cwblhau cymwysterau priodol sydd wedi eu cynnwys ar Fframwaith y Cymwysterau ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant rheoledig yng Nghymru gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Nodwch:** Does dim modd cwblhau'r cymhwyster wrth gyflawni lleoliad gwaith

## Beth fydd y cymhwyster yn cynnwys?

Mae cynnwys hanfodol y cymhwyster yn ymochrol i'r themau allweddol sydd yn y Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac yn cynnwys:

- Egwyddorion ac ymarfer
- diogelu
- iechyd a diogelwch
- iechyd a lles
- ymarfer proffesiynol.

## Strwythur y cymhwyster

Mae'r cymhwyster yn cynnwys uned orfodol ac ystod o unedau opsiynol sydd wedi cysylltu â mathau penodol o gefnogaeth neu leoliadau iechyd a gofal
I gwblhau'r cymhwyster Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) mae dysgwyr angen cyflawni isafswm o 50 credyd;

- 18 credyd angen eu cwblhau o'r uned orfodol
- isafswm 32 credyd i'w dewis o'r gyfres o unedau opsiynol sy'n cynnwys unedau ar gefnogaeth uniongyrchol a gofal iechyd.

## Asesu ar gyfer y cymhwyster

Mae'r dysgwr angen cwblhau:

- portffolio o dystiolaeth sy'n cynnwys arsylwad uniongyrchol o ymarfer
- tasgau sydd wedi eu llunio'n allanol a'u hasesu'n fewnol.

## Beth gall y cymhwyster arwain at?

Wrth gwblhau'r cymhwyster mi fydd yn galluogi dysgwyr i weithio gyda mwy o ymreolaeth a chyfrifoldeb fel gweithiwr Gofal Uwch Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol cymwysedig, gyda ffocws ar oedolion sydd dan fygythiad neu sydd mewn angen.

Bydd hefyd o gymorth i ddysgwyr sydd angen cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru fel Gweithiwr Gofal Uwch, ond bydd angen cyflawni gofynion cofrestru eraill.  Am ragor o fanylion ewch i: https://socialcare.wales/registration

Mae'r cymhwyster yn darparu'r wybodaeth briodol a chymhwysedd ymarfer a chefnogi dysgwyr i symud ymlaen at:

- Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 4 Paratoi am Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cymwysterau eraill bydd efallai o ddiddordeb yw:

- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- TGAU Uwch a TGAU Atodol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.
- Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Oedolion, Plant a Phobl Ifanc).

## Am wybodaeth bellach

Mae llawlyfr y cymhwyster a'r pecyn asesu ar gyfer y cymhwyster Lefel 3 ar gael o wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru..
Am wybodaeth bellach, ewch i:: www.healthandcarelearning.wales